



At: Penaethiaid Cynllunio

29 Ebrill 2020

Annwyl Gyfaill

Ysgrifennais atoch ar 27 Mawrth er mwyn rhoi cyngor cychwynnol ar sut y gall awdurdodau cynllunio lleol gynnal gwasanaethau yn ystod pandemig COVID-19.

Wrth i bob un ohonom addasu i arferion gweithio newydd, y brif flaenoriaeth o hyd yw diogelu'r GIG ac achub bywydau. Fodd bynnag, rhaid i ni hefyd sicrhau y gellir cynnal gwasanaeth cynllunio gweithredol yn ystod y cyfnod hwn, er mwyn ymateb ar fyrder i gynigion datblygu sy'n hollbwysig i'r ymateb i COVID-19 yn ogystal â chefnogi'r adferiad cymdeithasol ac economaidd tymor hwy.

Hoffwn ddiolch i chi a'ch staff am eich ymrwymiad parhaus a hyblyg yn ystod y cyfnod heriol hwn.

Mae'r cyngor diwygiedig hwn yn egluro'r hyn y mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020 yn ei olygu i wasanaethau cynllunio, yn enwedig mewn perthynas ag ymweliadau safle a chyhoeddusrwydd. Hoffwn hefyd dynnu eich sylw at Reoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020, a ddaeth i rym ar 22 Ebrill ac sy'n galluogi awdurdodau cynllunio lleol i ailgynnull pwyllgorau cynllunio. Er y bydd absenoldebau staff o ganlyniad i adleoli a salwch yn parhau i effeithio ar rai awdurdodau, nod y cyngor hwn yw helpu awdurdodau cynllunio lleol i barhau i benderfynu ar geisiadau cynllunio.

Ymweliadau safle

Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020 ("Rheoliadau'r Coronafeirws") yn atal pobl rhag gadael eu cartrefi ac aros i ffwrdd heb esgus rhesymol. Un o'r esgusodion rhesymol yw'r angen i deithio i'r gwaith lle nad yw'n rhesymol ymarferol i'r unigolyn hwnnw weithio gartref.

Mae'r Rheoliadau Cornafeirws yn gofyn bod pob ymdrech resymol yn cael ei wneud i gadw pellter o 2 metr rhwng pobl mewn llefydd gwaith os yw gwaith yn mynd rhagddo yn ystod y cyfnod argyfwng. Mae 'lle gwaith' ('premises' yn y rheoliadau Saesneg) o ran y Rheoliadau Coronafeirws yn cynnwys unrhyw adeilad, strwythur neu dir. Gall y rhan fwyaf o'r staff sy'n darparu'r gwasanaeth cynllunio wneud hynny o'u cartrefi, a dylent barhau i wneud hynny. I rai awdurdodau, dim ond drwy fynd i'r swyddfa y gellir ymgymryd â rhai swyddogaethau gweinyddol fel derbyn y post, argraffu llythyrau neu rai swyddogaethau TG. Dylai awdurdodau ystyried sut y gellir gwneud hyn mewn ffordd sy'n cydymffurfio â'r Rheoliadau Coronafeirws.

Y mater sydd wedi atal nifer o awdurdodau rhag prosesu ceisiadau newydd hyd yma yw ymweliadau safle, naill ai mewn perthynas â phostio hysbysiadau safle neu at ddiben asesu a dadansoddi cyflwr safleoedd, gan gynnwys gorfodi. **Ni ellir ymgymryd â'r gweithgareddau hyn gartref felly maent yn esgus rhesymol i deithio at ddiben Rheoliadau'r Coronafeirws. Fodd bynnag, rhaid gwneud y gweithgareddau hyn o fewn gofynion y Rheoliadau Coronafeirws.**

Cyn i swyddogion gynnal ymweliad safle rhaid iddynt ystyried y canlynol:

- a ellid bodloni diben yr ymweliad safle drwy ddull arall
- a ellir cydymffurfio â, a chadw at, y Rheoliadau Coronafeirws a'r canllawiau ar gadw pellter corfforol dan reoliad 7A

Hysbysiadau safle a threfniadau cyhoeddusrwydd eraill

Wrth i ni ystyried yr angen parhaus am hysbysiadau safle, rydym wedi dod i'r casgliad y gallant gael eu harddangos gan gydymffurfio â'r Rheoliadau Coronafeirws. Maent yn parhau i fod yn ffordd bwysig o ymgysylltu â'r cyhoedd mewn perthynas â chynigion datblygu. Gall awdurdodau cynllunio lleol wahodd ymgeiswyr i arddangos hysbysiadau ar eu tir eu hunain ar ran yr awdurdod. Mae awdurdodau yn parhau i fod yn gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion cyhoeddusrwydd a bennir yng Ngorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 a Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016.

Wrth ystyried y ffordd orau o dynnu sylw'r cyhoedd at geisiadau cynllunio, anogir amrywiaeth o ddulliau gweithredu, gan ystyried y newid i symudiadau pobl a rhyngweithio cymdeithasol.

Gan gydnabod nad oes gan rai aelodau o'r cyhoedd fynediad at y rhyngwrwyd, mae hysbysu cymdogion yn uniongyrchol yn parhau i fod yn bwysig. Anogir awdurdodau i ehangu'r gwaith a wneir ar hyn o bryd i ysgrifennu at gymdogion yn uniongyrchol gan ei bod yn bosibl na chaiff gwybodaeth am gynigion cynllunio ei throsglwyddo ar lafar i'r un graddau ag o'r blaen. Mae'n bosibl bod adnoddau staff ac achosion o gau swyddfeydd yn effeithio ar allu awdurdodau i argraffu a phostio llythyrau hysbysu cymdogion. Os felly, anogir awdurdodau cynllunio lleol i ddefnyddio'r gwasanaeth

Hysbysu a gynigir drwy Wasanaeth Digidol y Llywodraeth. Mae'r manylion i'w gweld yn yr atodiad i'r llythyr hwn.

Fel yr amlinellwyd yn fy llythyr blaenorol, dylai awdurdodau geisio defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a gwasanaethau ar-lein eraill mewn ffordd greadigol er mwyn ehangu ymgysylltiad y cyhoedd â'r system gynllunio.

Tra bydd swyddfeydd cynghorau dal ar gau i'r cyhoedd, ni fydd modd iddynt weld copïau caled o'r gofrestr gynllunio. Er y gall y rhan fwyaf o awdurdodau cynllunio lleol gynnis mynediad i'r gofrestr drwy eu gwefannau, ni all rhai unigolion gael mynediad i'r rhyngwyd ac felly dylai awdurdodau ddelio'n gydymdeimladol â cheisiadau am i gopïau caled o geisiadau gael eu hanfon atynt drwy'r post.

Ymweliadau safle i asesu cyflwr safleoedd

Mewn nifer o achosion, gellir asesu cyflwr safle o bell er mwyn osgoi'r angen am ymweliad safle. Gall hyn gynnwys defnyddio cyfleusterau fideo-gynadledda, delweddu lloeren, lluniau a fideos o'r safle a ddarperir gan yr ymgeisydd. Rydym yn argymhell y dylid ymgysylltu'n gynnar ag ymgeiswyr er mwyn canfod pa wybodaeth ychwanegol y bydd ei hangen a/neu drefnu ymweliad safle o bell os caiff technoleg fideo-gynadledda ei defnyddio.

Os na fydd modd cynnal asesiad o bell, bydd rhaid i'r person sy'n gwneud yr ymweliad sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofyn i gymryd pob cam rhesymol i gadw pellter o 2 metr rhwng pobl ar unrhyw dir neu adeilad lle digwyddir yr ymweliad safle.

Ni ddylai ymweliadau safle gael eu cynnal gan swyddog sydd â symptomau'r coronafeirws, ni waeth pa mor ysgafn yw'r symptomau hynny.

Ni ddylid cynnal ymweliad safle â chartref unrhyw un sydd â symptomau'r coronafeirws neu sy'n hunanyysu.

Dylai pob ymweliad safle fod yn destun asesiad risg cyn teithio er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Rheoliadau Coronafeirws. Ymweliadau safle lle nad oes angen mynediad i'r safle dan sylw fydd y ffordd ddewisol o gydymffurfio â'r Rheoliadau Coronafeirws a chynnal asesiad safle digonol. Dim ond drwy apwyntiad y dylid cynnal ymweliadau safle lle mae angen rhyngweithio corfforol. Dylai Swyddogion Cynllunio gytuno ar drefniadau ag ymgeiswyr er mwyn sicrhau y gellir rhoi mesurau diogelu addas ar waith cyn cynnal yr ymweliad safle, gan gynnwys sicrhau pellter o ddau fetr o leiaf rhwng unigolion bob amser, dan do ac yn yr awyr agored.

Lle na ellir yn ymarferol gadw pellter o 2 metr ar ymweliad safle, bydd angen i awdurdodau lleol ystyried a yw'r wybodaeth a gafwyd drwy ddulliau o bell yn ddigon i benderfynu ar y cais. Dylid ystyried hyn mewn ymgynghoriad â'r ymgeisydd er mwyn sicrhau bod pob cam rhesymol wedi'i gymryd i gael y wybodaeth ofynnol.

Ymgynghoriad cyn ymgeisio a chopïau caled

Mae Rheoliadau'r Coronafeirws yn berthnasol i ymgynghorwyr cynllunio, penseiri ac asiantau eraill yn yr un modd â swyddogion cynllunio. Lle bydd angen ymgynghori â'r gymuned cyn cyflwyno cais cynllunio ar gyfer datblygiad mawr, bydd angen arddangos hysbysiad safle. Ni ellir cynnal yr agwedd hon ar y broses cyn ymgeisio gartref ac felly mae'n esgus rhesymol dros deithio i'r safle.

Gan fod adeiladau cyhoeddus ar gau, mae diwygiadau dros dro i'r Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) wrthi'n cael eu hystyried er mwyn dileu'r angen i ddarparu gwybodaeth ar gyfer arolygiad mewn lleoliad yng nghyffiniau'r datblygiad arfaethedig, ac i ystyried yr angen am drefniadau amgen. Rhoddir cyngor ychwanegol ar y diwygiadau hyn yn fuan.

Er nad oes y fath ddarpariaeth i ddarparu copïau caled yn berthnasol i'r broses cyn ymgeisio ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol, rydym yn ystyried os oes angen newidiadau dros-dro i'r gofyniad i ymgeiswyr ddarparu copïau caled o gais i Weinidogion Cymru a'r awdurdod cynllunio lleol, fel y gosodir yn y Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016.

Pwyllgorau Cynllunio

Daeth Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020 ("y Rheoliadau Pwyllgorau") i rym ar 22 Ebrill. Mae'r Rheoliadau'n gwneud darpariaeth dros dro ar gyfer cynnal cyfarfodydd awdurdodau lleol ac ar gyfer mynediad y cyhoedd a'r wasg i'r cyfarfodydd hyn yn ystod pandemig COVID-19.

Mae'r Rheoliadau Pwyllgorau yn galluogi awdurdodau lleol i gynnal cyfarfodydd ar sail presenoldeb o bell, yn addasu'r gofynion presennol i gynnal cyfarfodydd blynyddol ar adegau penodol yn 2020, yn gwneud darpariaeth ar gyfer ameseru cyfarfodydd eraill sydd rhaid eu cynnal cyn 1af Mai 2021, ac yn dileu'r gofyniad i gynnal cyfarfodydd yn gyhoeddus. Mae'r Rheoliadau Pwyllgorau hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyhoeddi gwahanol ddogfennau yn electronig, yn cynnwys hysbysuadau cyhoeddus o gyfarfodydd ac agendâu, ac anfon gwysion at aelodau yn electronig, yn ogystal â darpariaeth yn ymwneud ag arolygu cofnodion yn dilyn cyfarfodydd.

Gwneir darpariaeth hefyd i awdurdodau lleol ganiatáu unigolion i ddirprwy dros aelodau o Bwyllgor yr awdurdod cynllunio lleol. Gan y gall fod angen i'r cyngor llawn gymeradwyo newidiadau i orchmynion sefydlog, dylai awdurdodau ystyried ymlaen llaw a yw'n debygol y bydd angen i unigolion ddirprwyo dros aelodau, er mwyn osgoi tarfu ar fusnes y pwyllgor cynllunio o ganlyniad i absenoldeb aelod.

Dylai awdurdodau gyfleu'r trefniadau dros dro ar gyfer fformat cyfarfodydd yn glir.

Mae'r Rheoliadau Pwyllgorau a'r memorandwm esboniadol ar gael i'w gweld ar y ddolen ganlynol: <http://www.senedd.cynulliad.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx>

Amserlenni ar gyfer gwneud penderfyniadau

Fel y nodwyd yn fy llythyr blaenorol, nid ydym yn bwriadu newid yr amserlenni ar gyfer gwneud penderfyniadau a nodir yn y Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu). Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod na fydd modd cyflawni'r amserlenni statudol mewn llawer o achosion oherwydd y cyfnod digyngsail hwn.

Rydym yn parhau i ystyried a yw'r ddarpariaeth yn y ddeddfwriaeth i ad-dalu ffioedd ceisiadau cynllunio yn dal i fod yn briodol. Rydym yn gwerthfawrogi y bydd cynnal ymweliadau safle a phwyllgorau cynllunio yn galluogi penderfyniadau i gael eu gwneud ar geisiadau cynllunio, sy'n lleihau'r angen am y mesur dros dro hwn, ond byddwn yn adolygu'r mater yn barhaus.

Os na all awdurdod benderfynu ar gais o fewn yr amserlen a ragnodwyd, dylid gofyn i'r ymgeisydd am estyniad, gan nodi'r rhesymau dros wneud hynny. Dylai awdurdodau fod yn rhesymol o ran hyd yr estyniad y gofynnir amdano.

Gwrandawiadau ac Ymchwiliadau

Nid oes unrhyw wrandawiadau nac ymchwiliadau'n cael eu cynnal yn bersonol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, os bydd yr amgylchiadau'n caniatáu, mae'r Arolygiaeth wedi newid gweithdrefnau i gynrychioliadau ysgrifenedig, lle bynnag y bo hynny'n bosibl.

Rydym yn parhau i adolygu a oes angen gwneud newidiadau i'r ddeddfwriaeth er mwyn galluogi digwyddiadau o'r fath i gael eu cynnal drwy bresenoldeb electronig. Mae'r gwaith hwn yn cael ei lywio gan yr angen i gynnal tegwch i bawb dan sylw, yn ogystal â'r ffordd o weithio a bennir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Safonau'r Gymraeg.

Ceisiadau COVID-19

Ers y diweddariad diwethaf ar wasanaethau cynllunio, gwnaed dau ddiwygiad i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995, gan greu hawliau datblygu a ganiateir newydd ar gyfer awdurdodau lleol a chyrrff y GIG.

Mae canllawiau ar hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer gwaith datblygu brys gan awdurdodau lleol i'w gweld ar ein gwefan yn: <https://llyw.cymru/hawliau-datblygu-brys-ganiateir-ar-gyfer-coronafeirws>

Mae canllawiau ar hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer gwaith datblygu brys gan gyrff y GIG i'w gweld ar ein gwefan yn: <https://llyw.cymru/coronafeirws-hawliau-newydd-yng-hylch-datblygu-ganiateir-ar-gyfer-cyrrff-y-gwasanaeth-iechyd>

Mae'r hawliau datblygu a ganiateir yn berthnasol i'r rhan fwyaf o'r ysbytai, gorsafoedd profi a chyfleusterau corffdy dros dro presennol neu arfaethedig yng Nghymru. Mae'n bosibl bod Fforymau Lleol Cymru Gydnerth yn ystyried yr angen i ehangu mynwentydd, ond dylai hyn gael ei ystyried drwy gais cynllunio gan y bydd y newid defnydd yn un parhaus, yn hytrach na'r 12 mis a ganiateir gan yr hawl datblygiad a ganiateir. Anogir awdurdodau cynllunio lleol i gael trafodaethau cynnar â Fforymau Lleol Cymru Gydnerth ynglŷn â'u gofynion, mewn cydweithrediad ag ymgynghoreion statudol perthnasol, yn enwedig Cyfoeth Naturiol Cymru a chwmnïau dŵr, fel bod y broses o ddewis safleoedd priodol yn lliniaru unrhyw effeithiau amgylcheddol tebygol.

Dylai awdurdodau barhau i ddilysu ceisiadau'n brydlon fel y gellir nodi ceisiadau â blaenoriaeth. Dylid rhoi blaenoriaeth i geisiadau sy'n ymateb yn uniongyrchol i COVID-19 fel ceisiadau i gynnal cyflenwadau bwyd, telegyfathrebu a rhwydweithiau ynni.

Cyngor ar sylweddau peryglus


Mae'n bosibl y bydd sefyllfaoedd yn codi o ganlyniad i gynigion datblygu COVID-19 sy'n peri goblygiadau i ganiatâd sylweddau peryglus neu waith datblygu mewn ardaloedd lle mae perygl i ddiogelwch. Er mai drwy Ap Gwe Cyngor Cynllunio yr ymdrinnir â'r rhan fwyaf o gyngor yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, mae ei dîm cynllunio defnydd tir ar gael os bydd angen help arnoch i ddelio â cheisiadau â blaenoriaeth.

Ar gyfer materion yn ymwneud â chaniatâd sylweddau peryglus, gellir cysylltu â'r tîm yn: HazSubCon.CEMHD5@hse.gov.uk

Ar gyfer materion yn ymwneud â cheisiadau cynllunio, gallwch gysylltu â: lupenquiries@hsl.gsi.gov.uk

Unwaith eto, hoffwn ddiolch i chi i gyd am gynnal gwasanaethau cynllunio yn ystod y cyfnod anodd hwn. Os oes gennych unrhyw ymholiadau brys, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yours faithfully,



Neil Hemington
Prif Gynllunydd, Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio
Chief Planner, Planning Directorate

ATODIAD

Use of Notify.gov to produce and distribute neighbour notification letters

Gall Awdurdodau Cynllunio Lleol ddefnyddio llythyrau hysbysu cymdogion i hysbysu trigolion lleol am ddatblygiad a gynigiwyd yn eu hardal leol. Efallai na fydd gan staff adrannau cynllunio Awdurdodau Cynllunio Lleol fynediad at gyfarpar argraffu a phostio pan fyddant yn gweithio gartref, sy'n ei gwneud hi'n anodd anfon llythyrau drwy'r post.

Mae gan Lywodraeth y DU lwyfan ar-lein o'r enw Notify.gov, a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru ac 16 o Awdurdodau Lleol ledled Cymru ar hyn o bryd i anfon gwybodaeth drwy neges destun, e-bost a llythyr at drigolion am faterion a all effeithio arnynt. Caiff yr holl weithgarwch ei reoli ar-lein gyda chymorth 24/7, a gall defnyddwyr greu cyfrif yn hawdd.

Mae 16 o Awdurdodau Lleol ledled Cymru eisoes yn defnyddio Notify.gov mewn meysydd gwasanaeth eraill felly mae lefel o arbenigedd a gwybodaeth eisoes yn bodoli. Serch hynny, mae'r system yn hawdd iawn ei defnyddio ac nid yw'n gofyn am sgiliau technegol penodol.

Lle nad oes gan Awdurdodau Cynllunio Lleol fynediad at eu cyfleusterau arferol i anfon llythyrau drwy'r post, dylent ddefnyddio Notify.gov er mwyn sicrhau y gall y system gynllunio barhau i weithredu, gan barhau i roi cyfle i gymunedau gyfrannu at benderfyniadau cynllunio lleol.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, sydd wedi bod yn defnyddio Notify.gov yn helaeth i gyfathrebu â thrigolion mewn nifer o feysydd gwasanaeth, wedi dechrau ei ddefnyddio i gefnogi ei wasanaethau cynllunio.

Mae Gwasanaeth Digidol Llywodraeth y DU yn gofyn i bob maes gwasanaeth awdurdod ymrwymo i Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth er mwyn rheoli'r defnydd a wneir o'r gwasanaeth. Atodir copi o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth er gwybodaeth.

Mae rhagor o gyfarwyddiadau ar sut i greu cyfrif a defnyddio'r gwasanaeth ar gael ar y wefan ganlynol: <https://www.notifications.service.gov.uk/>
Hefyd, gellir cael rhagor o gymorth gan Gangen Rheoli Datblygu Llywodraeth Cymru. Cysylltwch ag Amy Ravitz-Williams (amy.ravitz-williams@gov.wales)

Mae defnyddio gwasanaeth Notify.gov yn cynnig nifer o fuddiannau hirdymor i Awdurdodau Cynllunio Lleol, yn ogystal â mynd i'r afael ag anghenion uniongyrchol. Y tu hwnt i'r swyddogaeth anfon llythyrau, gellid defnyddio'r system i hysbysu trigolion drwy neges destun neu e-bost am ddatblygiadau a gynigiwyd yn eu hardaloedd, yn ogystal ag am ymgynghoriadau cynllunio strategol a rhai yn seiliedig ar bolisi. Mae ystyried sut y gellid cefnogi Awdurdodau Cynllunio Lleol i wneud hyn yn brosiect ar gyfer y dyfodol sy'n cael ei drafod gyda chymorth y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol newydd.